# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 7

UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

## PENNOD 2

AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

*Ceisiadau i ddiddymu*

### 130 Ceisiadau i ddiddymu

(1) Caiff prif gyngor, drwy hysbysiad mewn ysgrifen (“cais i ddiddymu”), ofyn i Weinidogion Cymru ystyried diddymu’r cyngor a’i brif ardal.

(2) Rhaid i gais i ddiddymu nodi rhesymau’r prif gyngor dros ofyn am y diddymiad.

(3) Rhaid i’r prif gyngor gyhoeddi’r cais i ddiddymu cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud y cais.

(4) Nid yw adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys i’r swyddogaeth o wneud cais i ddiddymu.

(5) Ni chaiff y swyddogaeth o wneud cais i ddiddymu fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth y prif gyngor o dan drefniadau gweithrediaeth.

(6) Mae maer etholedig i’w drin fel pe bai’n un o gynghorwyr y prif gyngor at ddibenion y swyddogaeth o wneud cais i ddiddymu.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2022. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn cael effaith mwyach.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 130.